## Y Groglith

**Darllen Luc 23:42–43**

Yn ôl traddodiad, Dismas a Gesmas oedd enwau'r ddau derfysgwr a groeshoeliwyd gydag Iesu ar Galfaria. O adnod gyntaf Efengyl Mathew hyd adnod olaf Efengyl Ioan, dim ond un sy'n galw Iesu wrth ei enw cyntaf yn unig, a Dismas oedd hwnnw, 'Iesu, cofia fi pan ddoi i'th deyrnas' (Luc 23:42). Awgrymodd rhai bod Dismas yn adnabod Iesu'n dda, yn hanu o'r un ardal ag ef ac yn ffrind bore oes iddo am ei fod yn dweud amdano, 'Ond ni wnaeth hwn ddim o'i le' (Luc 23:41). Mae Dismas hefyd yn crybwyll y gair 'teyrnas', gair oedd ar wefusau Iesu'n aml. Tybed oedd o wedi clywed Iesu'n sôn am y deyrnas hon, a'i fod yntau fel Jwdas wedi cefnu ar y deyrnas anymarferol hon? Tybed oedd yntau fel Jwdas wedi clywed digon o sôn am egwyddorion y deyrnas hon, a'i fod eisiau gweld Iesu'n gweithredu er mwyn dymchwel y gorthrwm mawr, sef grym yr Ymerodraeth Rufeinig?

Tybed beth wnewch chi o'r traddodiad hwn am Dismas? Yr hen enw arno oedd y 'lleidr edifeiriol'. Ond os oes unrhyw wirionedd i'r traddodiad, nid dyna'r cyfan y gallwn ei ddweud amdano. Yn ôl y traddodiad, nid lleidr yn unig oedd Dismas ond terfysgwr, yn union fel Barabbas. Roedd yntau'n rheibiwr a dinistriwr, yn enw rhyddid cenedlaethol. Anelai ei holl gynddaredd at Rufain. Mewn un ffordd, rhannai ag Iesu'r weledigaeth o weld teyrnas newydd yn gwawrio. A beth am 'edifeirwch' Dismas? Yn ôl Luc, sy'n cofnodi'r digwyddiad, 'I ni, y mae hynny'n gyfiawn, oherwydd haeddiant ein gweithredoedd sy'n dod inni' (Luc 23:41). Ond mae'r traddodiad am i ni gredu nad oes arwydd o edifeirwch yn y geiriau hyn, gan mai 'am ein gweithredoedd' a ddywedir, ac nid 'am ein pechodau'. Roedd Dismas yn chwennych teyrnas trwy rym, ac Iesu'n ei chwennych trwy gariad. Doedd dim amser i ddisgwyl. Roedd ffordd cariad yn rhy oddefgar, anymarferol ac araf. Ond ar Galfaria, yn ei boen a'i artaith, fe welodd Dismas rym anorchfygol na fedrai hyd yn oed farwolaeth ei orchfygu, 'Cofia fi pan ddoi i'th deyrnas'. Ac mae'n cael ateb gan yr arbenigwr ei hun, 'Yn wir, rwy'n dweud wrthyt, heddiw byddi gyda mi ym Mharadwys' (Luc 23:43). Mae yma bendantrwydd. Does yna ddim 'os' nac 'ond' na 'neu'.

Pwy ydi'r Dismas hwn? Chi a fi. Rydyn ni i gyd yn chwennych rhyw fath o deyrnas – teyrnas cyfoeth, hapusrwydd, sicrwydd neu bleser. Beth am y deyrnas o berthynas rhwng dyn a Duw, a rhwng dyn a'i gyd-ddyn, lle gallwn ar fore'r Groglith edrych ar Dduw a dweud, 'Tad', ac edrych i lygad cyd-ddyn a dweud, 'Frawd' neu 'Chwaer'? Felly y mae gwasanaeth anhunanol yn allwedd i hapusrwydd, a phenllanw hyn yw'r teimlad o lawenydd o fod yn un â Duw am ein bod yn ceisio ei ewyllys Ef. Dilyn y llwybr anghywir a wnaeth Dismas gydol ei fywyd, ac yna ar yr unfed awr ar ddeg mae'n gweld am y tro cyntaf. O'i groes ar y Groglith, mae Iesu'n galw arnoch chi, mae'n pledio â chi, ac mae'n mynd ymhellach trwy gynnig rhan i chi yn ei gynllun mawr. Mae'n disgwyl am ymateb, nid ymateb llugoer o gyrion y dorf ond ymateb cadarnhaol. 'Heddiw byddi gyda mi…'

**Myfyrdod pellach:**
O'r hyn sydd gan Luc i'w ddweud ceisiwch greu darlun o gymeriad Dismas.
O ran ateb Iesu i Dismas, beth ydi ystyr 'paradwys'?

***Huw John Hughes***